# Ymfudo a diwydiannu Cymru yn Donbas, dwyrain Wcráin (Ymerodraeth Rwsia gynt)

## Sefydlu Hughesovka

Awduron: Clara Defachel a Dr Victoria Donovan, Prifysgol St Andrews, yr Alban. Casgliad y Werin Cymru.

Mae'r adnodd yma'n gwahodd dysgwyr i edrych ar hanes diwydiannu Cymru o safbwynt gwahanol. Sefydlwyd dinas Hughesovka, sef dinas Donetsk yn rhanbarth Donbas, dwyrain Wcráin erbyn heddiw (rhan o Ymerodraeth Rwsia bryd hynny) gan weithwyr o Gymru a Phrydain. Roedd Ymerodraeth Rwsia yn bodoli o 1721 i 1917, pan gafodd y frenhiniaeth Tsaraidd ei disodli. Mae gan nifer o wledydd modern diriogaethau oedd arfer bod yn rhan o Ymerodraeth Rwsia, gan gynnwys Wcráin, Gwlad Pwyl, y Ffindir, Latfia, a hyd yn oed Unol Daleithiau America (Alaska).

Pan gyrhaeddodd y gweithwyr o Gymru, roedd ardal Donbas wedi bod yn rhan o Ymerodraeth Rwsia am dros 200 mlynedd, wedi iddi gael ei choloneiddio wrth i'r Ymerodraethr ymestyn ei ffiniau tua'r de yn y 16eg a'r 17eg ganrif. Mae'r ffaith i weithwyr symud o Brydain i Ymerodraeth Rwsia yn dangos pwysigrwydd cyfnewid rhwng ymerodraethau yn y cyfnod: roedd cyfnewid sgiliau, llafur a thechnoleg yn rhan annatod o dwf yr ymerodraethau.

Gan ddefnyddio Hughesovka fel astudiaeth achos, nod yr adnodd yw galluogi dysgwyr i ddatblygu safbwynt mwy amlochrog a beirniadol ar hanes diwydiannu yn eu gwlad ac ymgysylltu'n feirniadol â deunydd archifol. Gofynnir i ddysgwyr archwilio'r delweddau'n ofalus ac ateb y cwestiynau sydd i'w gweld drwy'r adnodd.

Daw'r deunydd ffynhonnell (ffotograffau a delweddau eraill) yn yr adnodd hwn o Archif Ymchwil Hughesovka, a gedwir yn Archifau Morgannwg, ac fe'i hatgynhyrchir yma drwy eu caniatâd caredig.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

**Cyfnod Allweddol 3 uwch a Chyfnod Allweddol 4 – Hanes**

**Cwricwlwm i Gymru 2022 – Dyniaethau – Llwybrau Cynnydd 3 a 4**

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac maen nhw'n cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

## Hanes Hughesovka

Sefydlwyd Hughesovka yn 1870 gan y Cymro John Hughes, a anwyd ym Merthyr Tudful yn 1815. Cafodd Hughes yrfa lwyddiannus fel meistr haearn a dyn busnes yng Nghymru. Prynodd Weithfeydd Peirianneg Glannau'r Wysg yng Nghasnewydd pan oedd ond yn 28 oed, a phatentio nifer o arfau llynges byd-enwog yng Nghwmni Peirianneg Millwall. Yn dilyn y llwyddiant yma, yn 1864 gofynnodd llywodraeth Rwsia i Hughes helpu i adfywio'r diwydiannau meteleg roedd y wladwriaeth yn eu rhedeg yn nwyrain Wcráin, a oedd yn rhan o Ymerodraeth Rwsia ar y pryd.

Yn 1870, gadawodd Hughes am Wcráin gyda thua chant o weithwyr haearn a glowyr arbenigol, yn bennaf o gymoedd y de, a ddaeth â'u gwragedd a'u plant gyda nhw. Fe wnaethon nhw ymuno â gweithlu cosmopolitaidd iawn oedd yn cynnwys Rwsiaid ac Wcreiniaid, yn ogystal ag Almaenwyr, Tatariaid, Iddewon a Groegiaid. Sefydlodd Hughes a'i gwmni y 'New Russia Company Ltd'. Fel mae enw'r fenter yn awgrymu, roedd hi'n beth cyffredin ar y pryd i dramorwyr ddefnyddio 'Rwsia' i olygu 'Ymerodraeth Rwsia'. Dros y degawd nesaf, adeiladwyd wyth ffwrnais chwyth, pyllau glo, mwyngloddiau, gwaith brics a rheilffyrdd. Rhoddwyd enw'r sylfaenydd o Gymru ar y dref – Hughesovka – a daeth yn ddinas ddiwydiannol bwysig yn Ymerodraeth Rwsia.

Yn dilyn gwrthryfel y Bolsieficiaid, dechreuodd Rhyfel Cartref ledled y wlad ym mis Hydref 1917. Roedd hyn yn golygu bod sefyllfa'r Prydeinwyr yn Hughesovka yn ansicr iawn, a gadawodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd o Brydain y wlad yn sgil hyn.

Gallwch ddarllen rhagor am sefydlu Hughesovka ar flog Archifau Morgannwg: https://glamarchives.wordpress.com/2017/11/03/hughesovka-a-welsh-enterprise-in-imperial-russia/ neu ar wefan John Hughes: http://www.johnhugheswales.com.

### Beth ddigwyddodd nesaf?

Ailenwyd y dref yn swyddogol yn Stalino yn 1929-31, a daeth Hughesovka yn dref flaenllaw yn yr Undeb Sofietaidd ar gyfer y gwaith o gyflymu'r broses ddiwydiannu fel roedd Stalin yn galw amdani. Yn dilyn ei farwolaeth yn 1953 ac ymgyrch Khrushchev i ddad-Stalineiddio'r Undeb, newidiwyd enw'r dref o Stalino i Donetsk yn 1961.


Daeth y rhanbarth i sylw'r byd unwaith eto yn 2014 pan ddechreuodd rhyfel yn rhanbarth Donbas. Ym mis Ebrill 2014, cipiodd ymwahanwyr, gyda chefnogaeth gudd gan Rwsia, adeiladau llywodraeth Donetsk a'i datgan yn 'Weriniaeth Pobl Donetsk', gan ofyn am ymyrraeth o Rwsia.

Mae'r rhyfel yn Wcráin ers hynny wedi arwain at argyfwng dyngarol. Rhwng 2014 a 2021, cafodd dros 14,000 o ddinasyddion Wcráin eu lladd, ac anafwyd tua 43,000 (heb gynnwys y marwolaethau a'r anafiadau yn sgil ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022). Rhwng 2014 a 2022 mae tua 1.6 miliwn o bobl wedi gorfod gadael eu cartrefi oherwydd y rhyfel, ac mae 400,000 wedi cael eu galw i'r fyddin.

Wrth i Rwsia ymosod ar y wlad eto ym mis Chwefror 2022, cafodd llawer o'r bobl hyn eu gorfodi i symud unwaith eto, gan ail-fyw trawma 2014-15 ar ôl creu bywyd newydd mewn ardaloedd oedd dan reolaeth llywodraeth Wcráin.

## Bywyd yn Hughesovka

### Dogfen 1: Portread o John Hughes, sylfaenydd Hughesovka



Mae'r testun ar y ffrâm yn nodi:
**Ar y chwith:** *'I.I. Iuziu'* (cyfieithiad i'r wyddor Gyrilig o John Hughes)
**Ar y brig:** *'osnovatel'* ('sylfaenydd')
**Ar y dde:** *'Zav. N-Rossiiskago Obshchestva'*

**Cwestiynau:**

- Sut mae John Hughes yn edrych yn ei bortread (llym, ffyrnig, caredig, cyfeillgar)? Pam fyddai am gael ei bortreadu fel hyn ar gyfer ei weithlu?
- Mae'r portread wedi'i fframio a'i addurno'n gywrain. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthon ni am statws Hughes yn Hughesovka a'r cwlt personoliaeth a ddaeth i'r amlwg o'i gwmpas?

Gallwch ddarllen beth yw ystyr 'cwlt personoliaeth' yma:
https://en.wikipedia.org/wiki/Cult_of_personality

- Yn aml, roedd gan ddiwydianwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel Hughes agendâu dyngarol i wella bywydau'r gweithlu lleol (Prydeinig), drwy addysg, gofal iechyd, ac ati. Pam ydych chi'n meddwl bod Hughes wedi talu sylw i'r pethau yma? A oedd o fudd i'w fusnes a'i waddol?

**Dogfen 2: Cyfres o luniau o Hughesovka**



Delwedd 1: Gweithfeydd Hughesovka tua 1912



Delwedd 2: Mae'r llun yma'n dangos y rhaniad gofodol yn Hughesovka. Mae'r pyllau glo a'r ffatrïoedd sydd i'w gweld yn y canol yn rhannu'r dref yn ddwy ardal benodol: y cyntaf gyda byngalos taclus ar flaen y llun, lle roedd gweithwyr o Brydain yn byw, a'r un yn y cefn lle roedd y gweithlu lleol yn byw.




Delwedd 3: Stryd yn Hughesovka. Mae'r arwyddion ar y siopau wedi'u gwneud o ddelweddau, nid geiriau, oherwydd bod llawer o'r gweithlu lleol yn anllythrennog.



Delwedd 4: Byngalos ymfudwyr o Brydain, a fyddai'n aml mewn swyddi rheoli uwch na'u cymheiriaid lleol.





Delwedd 5 – **ar y chwith**: Eglwys Anglicanaidd Hughesovka
Delwedd 6 – **ar y dde**: Eglwys Uniongred Hughesovka



Delwedd 7: Sefydlwyd y cwrt tenis yn Hughesovka gan yr ymfudwyr o Brydain a symudodd yno, mewn ymgais i ail-greu bywyd ‘Prydeinig’ dramor. Roedd y gweithgareddau hamdden eraill a ddatblygwyd gan ymfudwyr o Brydain yn Hughesovka yn cynnwys ystafelloedd te a chlybiau drama amatur.



Delwedd 8: Trigolion lleol a Phrydeinwyr yn mwynhau picnic

**Cwestiynau:**

- A yw rhai o'r lluniau yma'n eich atgoffa o dirweddau, golygfeydd neu ddelweddau cyfarwydd? Ble welsoch chi'r rhain (yn eich tref enedigol, ar y teledu, mewn llyfrau hanes)? Oeddech chi'n disgwyl i Hughesovka edrych fel hyn?

Edrychwch ar ddelweddau 1 a 2

- Sut mae'r delweddau yma'n cymharu â llefydd yng Nghymru yn ystod y Chwyldro Diwydiannol? Dyma enghreifftiau o ddelweddau hanesyddol o Bort Talbot.
  https://www.casgliadywerin.cymru/items/516541
  https://www.casgliadywerin.cymru/items/516749
  Allwch chi ddod o hyd i ddelweddau eraill ar wefan Casgliad y Werin, neu o ffynonellau eraill, sy'n dangos diwydiant yng Nghymru ar yr adeg yma?
- A oedd datblygiad diwydiannol yn eich ardal chi yn ystod y Chwyldro Diwydiannol? Beth oedd yr effaith ar yr amgylchedd? Yn eich barn chi, sut brofiad oedd hi i bobl weithio yn y llefydd yma neu fyw'n agos at ddiwydiannau trwm?
- A oes gwaith diwydiannol mawr yn agos i'ch ardal chi heddiw? Sut maen nhw'n cymharu â'r delweddau yma? Beth yw'r effaith ar yr amgylchedd heddiw? Sut beth yw bywyd i'r gweithwyr?

Edrychwch ar ddelwedd 3

- A yw'r ddelwedd yma'n eich atgoffa o ddelweddau eraill o drefi gwladychol y gallech fod wedi'u gweld ar y teledu o gyfnodau eraill neu lefydd eraill yn y byd?
- O'r dystiolaeth yn y lluniau yma, ydych chi'n credu bod y gweithwyr o Brydain wedi cael yr un profiad bywyd â gweddill y gweithlu yn Hughesovka? Pam, neu pam ddim? Pa agweddau ar fywyd oedd yn wahanol?

## Cyfarchion o Hughesovka!


Yn yr adran yma, byddwn yn edrych ar ddau gerdyn post a anfonwyd gan William (Willie) Jones at ei deulu yng Nghymru. Symudodd Willie Jones i Hughesovka yn 1906 i weithio fel Peiriannydd Glofa yn y New Russia Company. Gadawodd yn 1909.

Mae'r deunydd archifol yma'n cael ei gadw yn Archif Ymchwil Hughesovka, sy'n cynnwys dogfennau personol teuluoedd o Gymru y symudodd eu cyndeidiau i Hughesovka ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg/ddechrau'r ugeinfed ganrif.

### Dogfen 3: Cerdyn post a anfonwyd gan Willie Jones ar 25 Ebrill 1907 o Hughesovka




**Blaen y cerdyn post:** Mae'r llinell mewn llawysgrifen ar flaen y cerdyn post yn darllen:
*We have 3 large lakes*




**Cefn y cerdyn post:** Mae'r testun mewn llawysgrifen ar gefn y cerdyn post yn darllen:

*I hope you are better again. Thank G for letter. I will reply surely in a few days Love to all at home Yours Willie*

**Cwestiynau:**

- Edrychwch ar flaen a chefn y cerdyn post yn ofalus. Sawl iaith wahanol allwch chi eu hadnabod?


Awgrym: Fel nifer o ardaloedd diwydiannol, roedd Hughesovka yn le amlddiwylliannol ac amlieithog. Daeth Rwsieg yn iaith gyffredin i bobl o wahanol gefndiroedd allu cyfathrebu. Mae'r iaith Rwsieg yn defnyddio wyddor wahanol, sef y wyddor Cyrilig! Gallwch roi cynnig ar gyfieithu eich enw i Rwsieg gan ddefnyddio'r wyddor Cyrilig yn yr adnodd hwn:
http://languages-of-the-world.org/YourNameIn/Cyrillic.html

Roedd y mwyafrif o bobl yn Ymerodraeth Rwsia yn anllythrennog hyd at y chwyldro Bolsiefig yn 1917. Fodd bynnag, roedd amlieithrwydd yn nodwedd allweddol o fywyd yn Hughesovka gan fod pobl o bob rhan o Ymerodraeth Rwsia yn dod yno i weithio.

- Pa ieithoedd eraill, ar wahân i'r rhai rydych chi eisoes wedi'u nodi uchod, a allai fod wedi bod yn cael eu siarad yn Hughesovka ar yr adeg yma? Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn defnyddio Rwsieg i gyfathrebu â'i gilydd?

- Allwn ni gymharu hyn â datblygiadau iaith mewn ardaloedd amlddiwylliannol eraill yng Nghymru a gwledydd Prydain, fel dociau?

**Dogfen 4: Cerdyn post a anfonwyd gan Willie Jones at ei fam Mrs M. E. Jones ar 20 Hydref 1907**


Въ Англію.
29/10/07
ОТКРЫТОЕ ПИСЬМО
X is out here at last. 20th Oct 07
Tell George that and also that I will write him often. I like the experience I get here better than the country. It has cost me all I have earned to get right and nearly twelve months has elapsed since I came here. A letter will follow. Love to all. Hope your are all well Willie
Mrs M. E. Jones.
York House.
Caerphilly.
Glamorganshire
England
D/D X 519/11/4

Mae testun y cerdyn post yn darllen:

*20th Oct 07 [1907]*
*X is out here at last. Tell George that and also that I will write him often. I like the experience I get here better than the country. It has cost me all I have earned to get right and nearly twelve months has elapsed since I came here. A letter will follow. Love to all. Hope your are all well    Willie*

**Cwestiynau:**

Mae Willie Jones yn ysgrifennu: 'Mae wedi costio popeth rydw i wedi'i ennill i gael popeth yn iawn ac mae bron i 12 mis wedi mynd heibio ers i fi gyrraedd yma.'

- Pam ydych chi'n meddwl y byddai gweithwyr o Brydain fel Willie Jones wedi meddwl bod y siwrnai hir a drud yma wedi bod werth hynny? Pam ydych chi'n meddwl y gallai pobl ddewis ymfudo i wlad wahanol heddiw?

**Gan ddefnyddio'ch atebion i'r cwestiynau blaenorol yn yr adnodd yma, atebwch y canlynol:**

- Safbwyntiau pwy sy'n cael eu cynrychioli gan y deunydd archifol yma? Safbwyntiau pwy sydd ar goll?

- Trafodwch pam y gallai fod yn anodd canfod profiadau rhai grwpiau o'r gorffennol, a sut y gallai haneswyr ysgrifennu am hanesion pobl nad ydyn nhw wedi gadael unrhyw ddogfennau ysgrifenedig ar eu hôl?

## Cymhathu ac adfeddiad diwylliannol yn Hughesovka

Mae'r adran yma'n archwilio 'cymhathu diwylliannol' a 'phriodoli diwylliannol', a pham mae'r rhain yn berthnasol wrth feddwl am y bywyd roedd ymfudwyr o Gymru yn ei fyw yn Hughesovka.

**Diffiniadau defnyddiol:**

Cymhathu diwylliannol: Diwylliant yn cael ei ymgorffori neu ei lyncu gan y gymdeithas fwyafrifol. Gall derbyn diwylliant mwyafrifol arwain at golli hunaniaeth ddiwylliannol grŵp ethnig.

Priodoli diwylliannol: Term sy'n disgrifio un grŵp diwylliannol yn cymryd drosodd ffurfiau, themâu neu arferion creadigol neu artistig grŵp diwylliannol arall. Yn gyffredinol, defnyddir i ddisgrifio diwylliant Gorllewinol yn priodoli ffurfiau sydd ddim yn Orllewinol neu ddim yn wyn, ac mae'n awgrymu ecsbloetio a goruchafiaeth.

Addaswyd o Oxford Reference (https://www.oxfordreference.com/view/10.1093/oi/authority.20110803095652793 ac https://www.oxfordreference.com/view/10.1093/oi/authority.20110803095652789?rskey=HHunUr&result=1)

Wrth i weithwyr o Brydain ymgartrefu yn Hughesovka – weithiau am sawl cenhedlaeth – yn raddol, cymhathodd ymfudwyr Prydeinig draddodiadau a diwylliant yr ardal. Fe wnaethon nhw briodi pobl leol, rhoi enwau lleol i'w plant, a dysgu darllen ac ysgrifennu ieithoedd lleol yn ogystal â siarad Cymraeg a Saesneg.

Mae tystiolaeth archifol yn awgrymu (yn enwedig gohebiaeth rhwng cefndrydau Rwsiaidd a Saesneg eu hiaith o'r un teulu), pan gafodd y gweithwyr o Brydain eu gyrru allan gan y Bolsieficiaid yn 1917, roedd pob math o rwydweithiau a chysylltiadau yn bodoli rhwng trigolion Prydeinig a Rwsiaidd y dref.

**Dogfen 5: Ffotograffau o wyresau John Hughes**



Ffotograff A



Ffotograff B

Wyresau John Hughes yw'r ddau blentyn a bortreadir yn y ffotograffau yma. Maen nhw'n ymfudwyr ail genhedlaeth: cawson nhw eu geni yn Hughesovka gan feistroli Rwsieg a Saesneg. Dyw hi ddim yn glir os oedden nhw'n siarad Cymraeg neu Wcreineg, ond roedd ganddyn nhw athrawes gartref oedd yn siarad Cymraeg!

**Cwestiynau:**

- Ble ydych chi'n meddwl y cafodd y ffotograffau yma eu cymryd? Dillad pwy mae'r plant yn eu gwisgo? Pa bropiau allwch chi eu gweld yn y cefndir?
- Mae'r lluniau'n dangos fersiwn ramantaidd iawn o wisg draddodiadol a diwylliant gwerin Rwsia. Sut mae hyn yn cymharu ac yn cyferbynnu â diwylliant bywyd bob dydd yn Hughesovka ar yr adeg yma?
- Gan adeiladu ar eich atebion, a defnyddio'r diffiniadau a nodir uchod, gwerthuswch i ba raddau mae'r ffotograffau yma'n enghraifft o gymathiad diwylliannol a/neu feddiannu diwylliannol.

## Cofio Hughesovka

Fel mae'r adrannau blaenorol wedi dangos, mae hanes cymhleth ac anodd gan Hughesovka. Bydd yr adran yma'n archwilio sut mae gwahanol gymdeithasau – ac nid cymdeithas Wcráin yn unig – yn cofio, wedi cofio, ac efallai'n cofio Hughesovka yn y dyfodol.

Mae'n canolbwyntio'n benodol ar y gwahanol enwau a roddwyd i'r dref drwy gydol yr ugeinfed ganrif a'r defnydd o ffigwr Hughes wrth ddychmygu naratif hanesyddol gwahanol i Hughesovka.

### Beth sydd mewn enw? Hughesovka, Stalino, Donetsk

Yn ystod y Chwyldro Rwsiaidd cyntaf yn 1905, diorseddwyd brenhiniaeth Rwsia a gosodwyd Llywodraeth Dros Dro yn eu lle. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1917) a 'Chwyldro Rwsia' yn 1917, daeth y Bolsieficiaid [o'r gair Rwsieg: bolshinstvo, 'mwyafrif'], sef carfan Farcsaidd radical a chwyldroadol ar y chwith eithaf a sefydlwyd gan Vladimir Lenin, i rym. Yn 1923, ailenwyd Hughesovka yn Stalino er anrhydedd i arweinydd y Blaid Gomiwnyddol, Joseph Stalin, a daeth y dref yn rhan o ffederasiwn gydwladol yr Undeb Sofietaidd (ffugenw oedd Stalin sy'n golygu "y Dyn Dur", felly gellir dadlau ei fod yn enw addas ar gyfer gweithfeydd dur).

Yn 1961, ar ôl marwolaeth Stalin a'r ymosodiad ar ei Gwlt Personoliaeth, ailenwyd y dref eto yn Donetsk. Cwympodd yr Undeb Sofietaidd yn 1991, a daeth Wcráin yn wladwriaeth annibynnol gyda pherthynas boenus â'i gorffennol comiwnyddol. Yn 2015, pasiodd Wcráin ddeddf dad-gymuno a oedd yn gwahardd symbolau Sofietaidd.

### Dogfen 6: Cerflun o John Hughes, a godwyd yn Donetsk yn 2001



Wikicommons, http://wikimapia.org/175712/Monument-to-John-Hughes

**Cwestiynau:**

- Pam ydych chi'n meddwl bod yr enw Hughesovka yn achosi problemau i'r Bolsieficiaid? Beth wnaeth yr enw ei ddatgelu am orffennol y dref efallai nad oedd y comiwnyddion am ei hysbysebu?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai swyddogion lleol fod wedi bod eisiau coffáu cysylltiadau'r dref â Hughes a'r Prydeinwyr yn 2001 gyda'r cerflun sydd i'w weld yn Nogfen 6? Sut mae'r cerflun yma'n eu helpu i 'ddychmygu' hanes arall i Wcráin sy'n eithrio Undeb Sofietaidd yr ugeinfed ganrif?
- Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae cael gwared ar gerfluniau o ffigyrau gwladychol wedi sbarduno trafodaeth yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd*. O'r safbwynt hwnnw, a ydych *chi'n* credu y dylid cael gwared ar gerflun Hughes yn Donetsk? Ydych chi'n credu y gallai pobl Wcráin ofyn am gael gwared ar gerflun Hughes yn Donetsk? A ddylid codi cofeb i Hughes yng Nghymru yn lle?

  * Ar 7 Mehefin 2020, cafodd cerflun ym Mryste o Edward Colston ei dynnu i lawr gan brotestwyr a'i wthio mewn i'r harbwr. Masnachwr oedd Edward Colston oedd yn ymwneud â'r fasnach gaethweision, a thynnwyd y cerflun i lawr fel rhan o brotestiadau byd-eang Mae Bywydau Du o Bwys yn dilyn marwolaeth George Floyd yn Unol Daleithiau America.

**Syniadau ar gyfer cynnal trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth:**

- Yn seiliedig ar eich atebion blaenorol yn yr adnodd yma, trafodwch hanes a threftadaeth pwy sy'n cael ei gynrychioli yn stori Hughesovka. (Cymru? Wcráin? Prydain? Rwsia? Yr Ymerodraeth Brydeinig? Ymerodraeth Rwsia? Pob un, neu ddim un o'r rhain?).
- A all cofebau, fel cerflun John Hughes yn Donetsk, gynrychioli cymhlethdod profiadau hanesyddol yn llawn? Gwerthuswch i ba raddau mae cofebau yn caniatáu i ni anghofio, yn hytrach na chofio pethau o'r gorffennol.